OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2004 Rhif 317 (Cy.34)

HAWLIAU TRAMWY, CYMRU

Rheoliadau Codi Rhwystrau oddi ar Briffyrdd (Cymru) 2004

Wedi'u gwneud - -	*10 Chwefror 2004*
Yn dod i rym - -	*1 Ebrill 2004*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 130A(8), 130B(6) a 130C(2) o Ddeddf Priffyrdd 1980(**1**), a phob pŵer arall sy'n galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol yn y cyswllt hwnnw, drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol(**2**):

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Codi Rhwystrau oddi ar Briffyrdd (Cymru) 2004 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2004.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn —

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Priffyrdd 1980 ac mae cyfeiriad at "adran" yn gyfeiriad at yr adran honno o'r Ddeddf;

ystyr "hysbysiad" ("*notice*") yw hysbysiad ar ffurf a ragnodir gan y Rheoliadau hyn (neu ar ffurf y mae ei heffaith yn sylweddol debyg iddi) ac mae cyfeiriad at ffurflen â Rhif yn gyfeiriad at ffurflen sy'n dwyn y Rhif hwnnw yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

Hysbysiadau a ragnodir

3. Yr hysbysiad a ragnodir at ddibenion adran—

(a) 130A(1) yw Ffurflen 1;

(b) 130A(6)(a) yw Ffurflen 2;

(c) 130A(6)(b) yw Ffurflen 3;

(ch) 130C(1) yw Ffurflen 4; a

(**1**) 1980 p.66. Mewnosodwyd yr adrannau hyn yn y Ddeddf gan adran 63 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (p.37).

(**2**) Mae swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan yr adrannau hyn yn arferadwy gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 ac Atodlen 1 iddo (O.S. 1999/672) ac adran 99(1) o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000.

(d) 130B(6) yw Ffurflen 5.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**)

D. Elis-Thomas
10 Chwefror 2004 Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**3**) 1998 p.38.

YR ATODLEN

FFURFLEN 1

Darllenwch y nodiadau drosodd cyn llenwi'r ffurflen hon

HYSBYSIAD O GAIS I'R AWDURDOD PRIFFYRDD LLEOL SICRHAU BOD RHWYSTR HONEDIG YN CAEL EI GODI

DEDDF PRIFFYRDD 1980 ADRAN 130A(1)

I [enw'r Awdurdod]

o [cyfeiriad]

Yr wyf i [enw]

o [cyfeiriad]

[cyfeiriad e-bost (dewisol)]

[rhif ffôn (dewisol)]

drwy hyn yn gofyn i chi sicrhau bod y rhwystr a ddisgrifir isod yn cael ei godi.

Statws y briffordd [ysgrifennwch "Llwybr Troed", "Llwybr Ceffylau", "Cilffordd Gyfyngedig", "Cilffordd sy'n Agored i bob math o Draffig" neu "Ddim yn sicr."]

Lleoliad y briffordd a'r rhwystr:

Disgrifiad o'r rhwystr:

Y dyddiad y deuthum ar draws y rhwystr oedd [*rhowch ddyddiad*]:

Mae'n ymddangos i mi y gall y canlynol fod yn gyfrifol am y rhwystr [*os nad yw'n hysbys, ysgrifennwch anhysbys*]:

Enw 1:

Cyfeiriad 1:

Enw 2:

Cyfeiriad 2:

Llofnodwyd Dyddiad

NODIADAU AR FFURFLEN 1

Beth yw diben y ffurflen hon?

Mae'r ffurflen hon yn rhoi hysbysiad o'ch cais i awdurdod priffyrdd lleol ("yr Awdurdod") gymryd camau i arfer ei ddyletswydd i atal rhwystrau i hawliau tramwy cyhoeddus. Dim ond mathau penodol o rwystrau sy'n dod o fewn cwmpas adran 130A - mae'r rhain yn cael eu disgrifio isod. Serch hynny, os ydych yn ansicr a yw rhwystr yn dod o fewn cwmpas adran 130A, cewch gyflwyno'r ffurflen hon a bydd yr Awdurdod yn eich hysbysu a yw o fewn eu pwerau i ymdrin ag ef.

Pan fyddwch wedi llenwi'r ffurflen, rhaid i chi ei chyflwyno i'r Awdurdod y mae'r rhwystr yn ei ardal. Mae cyflwyno hysbysiad yn golygu traddodi'r ffurflen hon i Brif Weithredwr yr Awdurdod. Cewch ei gyflwyno'n bersonol, ei adael yn swyddfa'r Awdurdod neu ei bostio gan ddefnyddio neu beidio â defnyddio'r gwasanaeth post cofrestredig neu'r gwasanaeth dosbarthiad cofnodedig. Os postiwch ef heb ei gofrestru neu heb gofnodi'r ffaith ei fod wedi'i bostio, bernir nad yw wedi'i gyflwyno os gall yr Awdurdod ddangos na ddaeth i law'r person yr oedd wedi'i gyfeirio ato.

Dylech gadw copi o bob ffurflen y byddwch yn ei chyflwyno i'r Awdurdod.

Gan y gall gwahanol weithdrefnau fod yn gymwys i wahanol rwystrau, defnyddiwch un ffurflen ar gyfer pob rhwystr.

Beth yw rhwystr?

Mae rhwystr yn dod o fewn cwmpas adran 130A os yw ar lwybr troed, llwybr ceffyl neu gilffordd cyfyngedig neu ffordd a ddangosir ar fap a datganiad diffiniol fel cilffordd cyfyngedig neu gilffordd sy'n agored i bob math o draffig, os yw'r rhwystr heb gael ei awdurdodi'n gyfreithlon ac os yw'n unrhyw beiriant, pwmp, postyn neu rywbeth arall y mae ei natur yn golygu y gall achosi niwsans, neu yn wrych, coeden neu brysgwydden neu lystyfiant o unrhyw ddisgrifiad arall sy'n hongian uwchben man lle mae hawl dramwy yn y fath fodd ag i beryglu cerbydau, cerddwyr a marchogwyr neu eu rhwystro rhag tramwyo.

Os yw'r rhwystr o fewn cwmpas Adran 130A, rhaid i'r Awdurdod y cyflwynwch hysbysiad iddo, o fewn un mis ar ôl dyddiad ei gyflwyno, gyflwyno i bob person y mae ei enw a'i gyfeiriad wedi'u cynnwys ar y ffurflen hon ac, i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol, i bob person arall y mae'n ymddangos iddo y gallai fod yn gyfrifol am y rhwystr, hysbysiad yn rhoi gwybod iddynt fod yr hysbysiad hwn wedi'i gyflwyno ynglŷn â'r rhwystr ac yn datgan pa gamau, os o gwbl, y mae'r Awdurdod yn bwriadu eu cymryd. Mae'ch manylion personol yn gyfrinachol ac ni fydd yr Awdurdod yn datgelu pwy ydych chi i unrhyw bartïon eraill sydd â rhan yn y broses.

Os nad yw'r rhwystr o fewn cwmpas adran 130A bydd yr Awdurdod yn eich hysbysu o hynny.

Llenwi'r ffurflen

Lleoliad y briffordd a'r rhwystr: Dylai'ch disgrifiad o leoliad y briffordd ac o'r rhwystr fod yn ddigon manwl i'r Awdurdod allu dod o hyd iddynt.

Disgrifiad o'r rhwystr: Gallai esiamplau gynnwys peiriant amaethyddol; ysbwriel wedi'i adael ar y ffordd; canghennau sy'n hongian uwchben y ffordd yn y fath fodd ag i'ch rhwystro rhag tramwyo. Cewch atodi ffotograff os dymunwch. Os yw'r rhwystr yn berygl i ddefnyddwyr, bydd angen i'r Awdurdod ystyried a oes ganddo'r pŵer i'w godi heb gyflwyno hysbysiadau o dan adran 130A.

Pwy sy'n gyfrifol am y rhwystr? Os ydych yn adnabod, neu'n meddwl eich bod yn adnabod, yr unigolion a/neu y cwmnïau a all fod yn gyfrifol naill ai am greu'r rhwystr neu am fethu ag atal i'r rhwystr gael ei greu, ysgrifennwch eu henwau a'u cyfeiriadau.

FFURFLEN 2